Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Caban Aur mewn lleoliad gwledig tua phedair milltir o arfordir dwyreiniol Ynys Môn. Mae'r ysgol wedi ei chofrestru i dderbyn hyd at bedwar disgybl rhwng 11 ac 16 oed sydd ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae pedwar disgybl ar y gofrestr yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdodau lleol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu amserlen ar gyfer addysg amser llawn sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes a chelf, gan gynnwys therapi celf. Mae disgyblion yn treulio diwrnod llawn bob wythnos ar raglen addysg awyr agored sy'n cynnwys beicio, caiacio, canŵio a dringo. Mae'r amserlen hefyd yn cynnwys sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol sy'n canolbwyntio ar baratoi'r rheiny sy'n gadael gofal ar gyfer bywyd oedolyn.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sydd wedi ei theilwra yn unol ag anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion unigol.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o therapïau sy'n cysylltu'n dda â'u hanghenion unigol.

Mae staff addysg a gofal yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bresenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynhyrchu gwaith sy'n cyd-fynd â'u hoedran, eu hanghenion a'u gallu. Maent yn cymryd gofal o ran cywirdeb a chyflwyniad eu gwaith ac yn falch o'r gwelliannau a wnânt.

### Meysydd i'w datblygu

Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o brofion safonedig i sefydlu oedrannau cywirdeb darllen a sillafu ar gyfer yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau hyn yn ddiagnostig ac nid ydynt yn llywio gosod targedau a chynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn ddigon da.

Mae arweinwyr wedi llunio map defnyddiol o ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl sy'n rhoi manylion am addasiadau i'r cwricwlwm i wella ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Fodd bynnag, mae'r mapiau hefyd yn cynnwys targedau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cynnwys manylder priodol.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r adolygiad blynyddol o'r datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn ddigon cadarn

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod gwahanol athrawon yn defnyddio'r ystafell ddosbarth ar yr un pryd i addysgu gwahanol bynciau yn creu gormod o aflonyddwch. Caiff hyn effaith andwyol ar allu disgyblion i weithio'n ddiwyd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddisgrifiadol yn bennaf ac nid yw'n arfarnu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd yr addysgu yn ddigon da.

**Argymhellion**

A1. Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru)

A2. Sicrhau bod datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau a strategaethau dysgu penodol y gellir eu hadolygu'n effeithiol

A3. Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n gliriach ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

A4. Sicrhau bod anghenion llythrennedd disgyblion yn cael eu cefnogi trwy strategaethau ymyrraeth priodol

A5. Sicrhau bod meysydd dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn lleihau aflonyddwch i wersi

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr bod yr adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol a'i fod yn nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn glir**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Ni chaiff prosesau hunanarfarnu eu hymgorffori'n llawn fel rhan o gynllunio gwelliant. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddisgrifiadol yn bennaf, mae'n drysu darpariaeth â safonau ac nid yw'n amlygu cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn ddigon da.

Mae'r ysgol wedi nodi bod angen gwella ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o arsylwi addysgu wedi bod yn gyson ac nid yw arweinwyr wedi nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer addysgu yn yr adroddiad hunanarfarnu.

**Argymhelliad 2: Gwella'r defnydd ar ddata i ddadansoddi perfformiad a gosod targedau ar gyfer gwella**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio data i lywio hunanarfarnu. Er enghraifft, maent yn dechrau defnyddio gwybodaeth feincnodi gan ddarparwyr tebyg i fyfyrio ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys dadansoddiad o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 neu asesiad o'r cynnydd a wna disgyblion, mewn perthynas â'u mannau cychwyn, ar draws ystod y pynciau a addysgir.

Mae'r ysgol wedi dechrau olrhain cyrhaeddiad ac ymgysylltiad disgyblion yn ystod gwersi yn ddiweddar. Mae hyn yn cysylltu'n briodol â chynllun dyfarnu pwyntiau. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn ac mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar gynnydd a lles disgyblion.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau a strategaethau clir i ysgogi'r gwelliannau dymunol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi meysydd blaenoriaeth clir ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu nodau sy'n benodol i'r ysgol a gwella ansawdd yr addysgu a'r amgylchedd dysgu. Mae pob blaenoriaeth wedi ei rhannu'n gamau gweithredu llai i gyflawni'r amcan cyffredinol. Caiff cyfrifoldebau eu dyrannu i staff a darperir graddfa amser ar gyfer adolygu a chwblhau camau gweithredu.

Mae bron pob un o'r blaenoriaethau o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael i'r ysgol. Fodd bynnag, pan fydd cost ariannol, ni chaiff y rhain eu cynnwys yn y cynllun.

**Argymhelliad 4: Datblygu prosesau effeithiol ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod dogfennau polisi yn gyfredol bob amser**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno proses i adolygu a diweddaru polisïau fel rhan o gylch gweithgareddau sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae arweinwyr wedi adolygu a diweddaru'r polisïau ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod dulliau addysgu yn effeithiol a bod amser dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth [1(3)(c)]
- Rhoi fframwaith ar waith y gellir ei ddefnyddio i arfarnu perfformiad disgyblion trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun, fel y cânt eu darparu i rieni, a/neu yn ôl normau cenedlaethol [1(4)]

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau cyn cadarnhau penodiad pob aelod o staff, bod gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal i gadarnhau hunaniaeth, ffitrwydd meddygol, hanes cyflogaeth blaenorol, geirdaon cymeriad a, lle bo'n briodol, cymwysterau priodol a geirdaon proffesiynol [4(c)]

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Caban Aur |
| **Rhif yr ysgol** | 6606028 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 25/05/2016 |
| **Perchennog** | Afon Goch Children's Homes Ltd |
| **Staff** | 6 o athrawon - 3 amser llawn, 3 rhan-amser |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd sy'n gysylltiedig â chartref plant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Nid yw'r ddarpariaeth wedi cael arolygiad Adran 163 eto |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/06/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 19/04/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |